



Diogelwch ar y we:

Mae diogelwch ar y we yn rhan bwysig iawn o'r Cwricwlwm ac felly, teimlwn ei fod yn ddyletswydd arnom ni i atgoffa rhieni o'i bwysigrwydd. Anogwn y disgyblion i ddefnyddio'r we yn synhwyrol ar bob achlysur ac maent yn derbyn gwersi ar ddiogelwch ar y we fel rhan o'u haddysg.

Mae mwy a mwy o gwmnïau wedi eu sefydlu er mwyn rhoi cyngor i blant a rhieni ar sut i ddelio gyda diogelwch ar y we. Trosodd, ceir taflen sy'n rhoi gwybodaeth am rai rhaglenni ac apiau sy'n cael eu defnyddio gan blant heddiw.

Deallwn bod diogelwch ar y we yn fater pwysig iawn i chi gyd. Mae'r wefan 'Kidsmart' hefyd yn annog eich bod yn ymwybodol o bob gwefan y mae eich plentyn yn defnyddio ac maent yn eich annog i drafod y gwefannau hyn gyda'ch plentyn. Dylid sicrhau nad yw eich plentyn yn danfon unrhyw lun, cyfeiriad neu wybodaeth bersonol i unrhyw ddieithryn.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar www.kidsmart.org.uk (Ceir linc i'r wefan hon ar wefan yr ysgol yn ogystal: www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk) Byddwn hefyd yn eich gwahodd i gyfarfod ar ddiogelwch ar y we yn ystod y flwyddyn.

Internet safety:

Internet safety is considered a very important part of the Curriculum and therefore, we feel it is our duty as a school to remind you of the importance of this. We encourage the children to use the internet wisely at all times and they also receive lessons on internet safety as a part of their education.

More and more companies offer advice for parents on how to deal with internet safety. With this letter, we have included a leaflet giving information about some of the programs and aps which are used by children today.

The website 'Kidsmart' also advises that you are aware of each internet site your child is using and advises you to discuss these sites with your child. They also talk about the importance of your child/children not sending any photos, addresses or telephone numbers or any personal information to a stranger on line.

For more information, visit the website www.kidsmart.org.uk
(There is a link to this on our school website www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk)

As a school, we will be arranging a meeting for parents and guardians discussing internet safety later in the year.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad / Thank you very much for your co-operation,

C. Passmore and Menna Faulknall.
(ICT Leaders)